PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 28 Gorffennaf 13, 2023 50c.

## Rhagor o’r Undeb

Yn ystod tridiau’r Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhosllannerchrugog roedd llu o ddigwyddiadau arwyddocaol a hynny y tu allan i gwmpas y cyfarfodydd cyhoeddus niferus. Dyma bigion o’r hyn a ddigwyddodd.

### Trysoryddiaeth

Croesawyd Trysorydd newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sef Geraint Rees, Efailisaf. Dymunodd y Llywydd, sef y Parchg Beti Wyn James, yn dda iddo wrth ymgymryd â’r gwaith. Yn ystod y cyfarfodydd hefyd fe gyflwynwyd rhodd i fynegi ein gwerthfawrogiad mawr i Meryl James am ei holl waith fel trysorydd tros y blynyddoedd.





### Croeso

Fe groesawodd y Llywydd hefyd ddarpar lywydd yr Undeb a etholwyd yn ddiweddar sef y Parchg Owain Llŷr Evans, Minny Street, Caerdydd. Llongyfarchwyd ef yn galonnog iawn ar gael ei ethol. Bydd Y Parchg Owain Llŷr Evans yn ddarpar lywydd nawr am ddwy flynedd hyd nes y daw Llywyddiaeth y Parchg Jeff Williams i ben yn 2025.




### Llywyddiaeth

Ar ddiwedd y cyfarfodydd fe drosglwyddwyd Beibl y llywydd gan Y Parchg Beti-Wyn James i’r Parchg Jeff Williams, y llywydd newydd. Diolchwn yn fawr i Beti-Wyn am ei holl waith tros y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunwn yn dda i Jeff wrth iddo ymgymryd â chyfrifoldebau’r swydd.



## Beibl i bawb ...



Cyflwynwyd copi yr un o’r Beibl gan y Parchg Beti-Wyn James i ddisgyblion blwyddyn 5 yn Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin yn ddiweddar. Dyma gymwynas flynyddol gan grŵp cydenwadol GiG a chapeli ac eglwysi Cymraeg tref Caerfyrddin. Maent yn gwneud casgliad yn oedfaon Gŵyl Dewi Undebol y dref bob blwyddyn i ariannu’r Beiblau.

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Rhosllannerchrugog 2023



*Dyma'r rhan gyntaf Adroddiad y Parchg Dyfrig Rees yng nghyfarfodydd yr Undeb.*

Annwyl Lywydd a chyfeillion. Wrth gamu o Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin i Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, o Gaerfyrddin i Rosllannerchrugog a Wrecsam llwyddodd yr Undeb i gyflawni rhywbeth y mae Cristnogion wedi bod yn gyffyrddus iawn ag ef erioed, sef gwneud yr hyn yr ydym wedi arfer ei wneud. Yn 1973 yr ymwelodd yr Undeb â'r Rhos ddiwethaf â hynny wedi dathlu ei ganmlwydd yng Nghaerfyrddin, y flwyddyn cynt. Ymwelodd â Wrecsam, ers hynny, yn 2005.

Y mae'n llawenydd gennym gofio inni fod yma o'r blaen, â hynny mewn ystyr sydd heb fod yn arwynebol a slic. Mae ymweliad â'r fro a'r ardal hon yn peri inni sylweddoli o newydd ddyfnder ein gwreiddiau oherwydd dyma fro y bu Walter Cradock a'i ddisgybl Morgan Llwyd yn weithredol ynddi, tadau'r traddodiad Piwritanaidd fu â llaw yn sefydlu'r eglwys Annibynnol cyntaf yn Llanfaches. Yma, mewn cyfnod diweddarach y llafuriodd Williams o'r Wern. Mae cofio iddynt weithio i feithrin tyfiant newydd fyddai'n ffrwytho ar ei ganfed yn her ac yn ysbrydoliaeth i ninnau sydd heddiw'n brwydro i ymddatod o hualau gormesol y rhigolau arferol, cyffyrddus fu'n gymaint llyffethair i'n bywyd a'n gwaith dros y degawdau diwethaf.

Ni thâl inni oedi gyda'r hanes heb ystyried diwydrwydd y bobl ffyddlon sy'n cadw'r dystiolaeth Gristnogol yn fyw ar y ffin heddiw. Y mae ein dyled a'n diolch yn fawr i'r criw bychan o dan arweiniad y Parchg Trefor Jones-Morris, sydd â'u henwau yn y *Llyfr Glas*, sydd wedi sicrhau aelwyd groesawus i'r Undeb, eleni. Rydym, eisoes, wedi profi o'u croeso a'u harweiniad a gweld a phrofi'r doniau cyfoethog sy'n perthyn i eglwysi'r rhan hon o'r wlad. Diolch yn fawr a bendith arnoch.

### Staff

Yn llawen y manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cydweithwyr yn Nhŷ John Penri am eu gwaith a'u cydweithrediad parod dros y flwyddyn ac am fod yn dîm mor arbennig i berthyn iddo. Rwy'n gobeithio'n fawr inni lwyddo i gyflawni'r hyn oedd yn ddisgwyliedig gennym. Ymddengys bo'r drefn o weithio hybrid yn dal yn effeithiol gyda Thŷ John Penri, Abertawe ar agor ddyddiau Mawrth ac Iau, ac yn rhithiol wedyn, weddill yr wythnos.

Fel sy'n wybyddus, wrth gwrs, ymunodd y Parchg Carwyn Siddall, Llanuwchllyn â ni, fel Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau'r Undeb ddechrau'r flwyddyn. Da medru adrodd bod Carwyn wedi setlo'n dda iawn yn ei waith ac wedi gwneud cyfraniad mawr eisoes gyda golwg ar faterion hyfforddi yn ein plith,(fel y clywsom ganddo'n barod y bore 'ma). Does gennym ddim amheuaeth na fydd y gwaith yn tyfu ac yn llwyddo o dan ei arweiniad.

Fel y cyhoeddwyd yn *Y Tyst* yn ddiweddar bydd Mrs Meinir Williams, y Tymbl Uchaf yn ymuno â ni fel Swyddog Gweinyddol yr Undeb, ym mis Medi yn gweithio deuddydd yr wythnos. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu atom gan fawr hyderu y bydd ei chyfraniad yn un gwerthfawr.

### Gwirfoddolwyr

Ofer, wrth gwrs, synied am unrhyw waith perthynol i'r Undeb nad yw'n gwneud y cyfrif llawn a digonol o gyfraniad ein gweithlu gwirfoddol, ffyddlon a theyrngar. Testun diolch yn wir, yw'r ffaith fod gennym gynifer o bobl yn ein plith sydd mor barod ac eiddgar i wasanaethu.

Diolch i swyddogion yr Undeb, y Cyngor, aelodau'r adrannau a'r pwyllgor gweinyddol am eu gwaith a'u hymroddiad ac i bawb sy'n ein cynrychioli ar wahanol gyrff cydeglwysig ac allanol.

Caniatewch imi gyfeirio at ddau o'n swyddogion. Yn y lle cyntaf, carwn ddiolch i'r Llywydd, y Parchg Beti-Wyn James am ei gwaith a'i harweiniad dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac am ei chefnogaeth i ni fel staff a'i bugeiliaeth o weinidogion, eglwysi a chyfundebau'r Undeb.

Yn ail, hoffwn ddatgan gwerthfawrogiad a diolch i'n trysorydd, Miss Meryl James am ei gwasanaeth diflino i'r Undeb dros y saith mlynedd olaf. I Meryl, yn anad neb arall y mae ein dyled am gwblhau'r broses o ddwyn ein cronfeydd elusennol ynghyd i sicrhau ffynhonnell nawdd eithaf sylweddol i gefnogi eglwysi yn eu gwaith a'u tystiolaeth yn enw Iesu.

Sylweddolwn, wrth gwrs, mai ildio'u cyfrifoldebau i eraill y mae'r ddwy ohonynt a chyda llawenydd mawr y croesawyd ein darpar Lywydd, y Parchg Owain Llŷr Evans ddoe, ac yr etholwyd y trysorydd newydd, Mr Geraint Rees.

Bydd y gynhadledd yn cloi fory gyda dyfodiad y Parchg Jeff Williams i gadair yr Undeb. Byddwn ni'n mynd oddi yma â'n golygon at y dyfodol yn hyderus y cawn ni ddwy flynedd dda a bendithiol o dan ei lywyddiaeth. Yn wir, rydym yn ffyddiog fod y tymor nesaf hwn, fel y bu eraill gydol ein hanes, yn mynd i gynnig mwy na digon o gyfle inni gael ein hunain o dan fendith Duw ac yn ei wasanaethu. Hyn, yn sicr, yw'n gweddi.



*Bydd ail ran yr adroddiad yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 13 2023 RHIF 124

# Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 75 oed

Cefais fy ngeni yn y flwyddyn 1948, ac felly yr wyf yr un oed â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol! Pleser felly oedd cael cynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru mewn oedfa arbennig o ddiolchgarwch i ddathlu 75 mlynedd o'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn Eglwys yr Atgyfodiad, Treláí, Caerdydd, fore dydd Mawrth, 4 Gorffennaf. Yr oedd yn achlysur i alluogi'r gynulleidfa i fyfyrio a diolch am y nifer fawr o bobl sydd wedi cefnogi'r Gwasanaeth Iechyd poblogaidd dros dri chwarter canrif a'r rhai sy'n parhau i wneud hynny heddiw.

Cyfeiriodd Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, at 'eu hangerdd, eu hymroddiad a'u hymrwymiad diflino i'w swyddi – dyna yw hanfod ein Gwasanaeth Iechyd. Gwasanaeth sydd bob amser yno pan fydd ei angen arnom, ar yr adegau mwyaf dwys yn ein bywydau.'

Roedd y gynulleidfa yn cynrychioli'r amrywiaeth cyfoethog o bobl sy'n darparu'r Gwasanaeth Iechyd ledled Cymru, yn staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, ac yn cynnwys yn ogystal aelodau a chynrychiolwyr y Fforwm Cymunedau Ffydd.

Croesawyd y gynulleidfa i'r oedfa ddwyieithog gan y Canon Jan Gould, ficer yr eglwys. Cyflwynodd y Gwir Barchedig Mary Stallard, esgob Llandaf, anerchiad pwrpasol oedd yn ein hatgoffa o weledigaeth Aneurin Bevan, Aelod Seneddol Glyn Ebwy ar y pryd, a sefydlydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a pha mor bwysig yw i bawb ohonom sicrhau i'r dyfodol ei freuddwyd o ofal iechyd i bawb yn rhad ac am ddim. Eraill a gyfrannodd i'r oedfa oedd myfyrwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Côr Adran Achosion Brys Ysbyty Treforys, ac aelodau o'r Fforwm Cymunedau Ffydd.

Darllenodd Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, gerdd arbennig a ysgrifennodd wedi iddi glywed yn uniongyrchol brofiadau staff y Gwasanaeth Iechyd. Cyfieithwyd y gerdd 'The Unsung' gan Grug Muse, dan y teitl 'Y Di-glod'. Dyfynnaf ychydig linellau ohoni:

> Sut ydych chi'n consurio gwenau a llwyddiannau
> heb gwsg na sicrwydd? Meithrin ffydd o dryblith chwilfriw ...
> Cymeraf y pin, fy mhapur, y geiriau hyn i gyd.
> Ond alla i ddim addo cymeradwyaeth i chi,
> Am fod clapio'n awgrymu fod y gwaith ar ben.

Oedfa fendithiol ac effeithiol, a diolch am gael bod yn bresennol ar yr achlysur arbennig hwn.

*Bill Davies*





Daeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i fodolaeth ar 5 Gorffennaf 1948. Yn ystod y gwaith ailadeiladu ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ystyrid bod gwella gofal iechyd y genedl yn hollbwysig i'w hadferiad. Câi'r Gwasanaeth ei ariannu bron yn gyfan gwbl o drethiant canolog, ac roedd yr egwyddor fod y cyfoethog yn talu mwy na'r tlawd am fuddion tebyg yn cael ei hystyried yn rhan hanfodol o'r cynllun. Roedd pawb yn gymwys i gael gofal, hyd yn oed y rhai oedd yn byw yma dros dro neu'n ymweld â'r wlad. Gallai pobl gael eu hatgyfeirio i unrhyw ysbyty, yn lleol neu ymhellach i ffwrdd.

### Gweddi ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Dduw iachâd a thosturi,
diolchwn i Ti am y rhai aeth ati i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol,
ac am bawb fu'n gweithio ynddo dros y 75 mlynedd a aeth heibio.

Diolchwn am ymroddiad pawb sy'n rhan o'r gwaith enfawr hwn heddiw:
y rhai sy'n defnyddio'u sgiliau a'u doniau
i wasanaethu a gofalu am gleifion a'u teuluoedd.

Diolch am bob un cyfraniad, gan feddygon a nyrsys,
gofalwyr, staff glanhau a darparwyr bwyd,
a'r llu o bobl eraill sy'n gofalu bod y gwaith yn mynd rhagddo.

Gofynnwn i ti ofalu amdanynt a'u cynnal ynghanol heriau a phwysau'r gwaith,
a gweddïwn am weld mwy o weithwyr yn ymuno â'r rhengoedd.

Dduw tragwyddol,
dyrchafwn ger dy fron
bawb o bob cenedl a chefndir
sy'n gweithio ar y rheng flaen ym maes gofal iechyd.

Rho ddoethineb ac amynedd iddynt yn eu gwaith.
Bydd yn nerth ac yn darian iddynt;
cynnal hwy bob amser, iddynt rannu dy gariad a'th dosturi di,
wrth iddynt roi ohonynt eu hunain wrth ofalu am eraill.
Amen.

# Cystadleuaeth Bêl-droed Cwpan CIC Gofalaeth Bro Nant Conwy

Nos Fawrth, 27 Mehefin, cynhaliwyd Cystadleuaeth Bêl-droed Cwpan CIC Gofalaeth Bro Nant Conwy. Cafwyd cynrychiolaeth o bob clwb CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) o fewn yr ofalaeth, sef Clybiau Bro Caerhun, Bro Cernyw, Ardal Ysbyty Ifan ac Ardal Llanrwst.

Diolch i'r holl blant ac ieuenctid a'u rhieni am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd. Cafwyd noson hwyliog a chystadleuol iawn!

Roedd y gemau'n agos, ond tîm Ardal Ysbyty Ifan ddaeth i'r brig yn yr adran iau. Da iawn chi!

Yn yr adran hŷn gêm gyfartal oedd hi yn y ffeinal rhwng tîm Bro Caerhun a thîm cymysg Ardal Ysbyty Ifan a Bro Cernyw. Felly, bu rhaid cael ciciau o'r smotyn. Llongyfarchiadau i'r tîm a ddaeth i'r brig, sef Tîm Clwb CIC Bro Caerhun. Da iawn i bawb a gymerodd ran.



Timau Clybiau CIC Bach




Enillwyr Cwpan CIC Bach – Clwb Ardal Ysbyty Ifan



Clwb Ardal Ysbyty Ifan



Clwb Ardal Llanrwst




Tim cymysg Clwb Ardal Ysbyty Ifan a Bro Cernyw




Enillwyr Cwpan CIC – Clwb Bro Caerhun

ADNABOD **Cymeriadau'r Hen Destament**

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 312 Chwerthin

### Darllen: Genesis 21:1–7

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 137)

Wrth inni fynd drwy'r bennod yma rwyf am dynnu sylw at ddau ystyr i chwerthin yn y testun gwreiddiol. Mae'r gair yn gyffredin yn yr adnodau hyn, a'r wythnos nesaf byddwn yn edrych ar y chwerthin sy'n cael ei ddisgrifio yn adnod 9. Er y cyfieithiad yn y Beibl Cymraeg Newydd, mae'r ystyr yn debycach i gyfieithiad William Morgan a Beibl.net: 'Gwelodd Sara y mab gafodd Hagar yr Eifftes i Abraham yn gwneud hwyl am ben ei mab hi, Isaac', ac ym Meibl William Morgan: 'gwatwar'. Rwyf am wneud hyn gan fod y ddau ystyr yn cyfeirio at ddau brofiad sy'n gyffredin i'r Cristion. Yn gyntaf, mae'r Cristion yn berson sy'n medru chwerthin yn yr ystyr orau, y chwerthin sy'n dod, fel yn hanes Sarah, o weld daioni rhyfeddol Duw tuag atom. Yn ail, mae'n cyfeirio at y gwneud hwyl fydd Cristnogion yn gorfod ei wynebu yn eu cerddediad o ddydd i dydd.

O ddod at Iesu, rydym yn dod at y gwynfyd pennaf yn llythrennol. Droeon ar ddechrau'r epistolau, mae Paul yn torri allan i addoli a chanmol mewn ffordd sy'n fynegiant o'r llawenydd mae wedi ei ddarganfod yn y newyddion da. Yn Effesiaid 1:3 mae'n dweud: 'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd.'

Beth felly sy'n gyffredin am y chwerthin yma yn Genesis a chwerthiniad y Cristion? Yn ei hanfod, mae'n syndod, yn rhyfeddod, yn orfoledd am yr hyn y mae Duw wedi ei gyflawni. Mae'r adnodau yma yn Genesis 21 yn ein gadael heb amheuaeth o gwbl mai gwaith gwyrthiol Duw oedd y rhodd yma i Abraham a Sarah. Pan mae Mair yn holi'r angel yn Luc 1 sut yr oedd am eni plentyn a hithau'n wyryf, mae'n clywed yr ateb rhyfeddol, 'oherwydd ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw' (Luc 1:37). Cawn yr un neges gan yr angel i Abraham yn Genesis 18:14, 'A oes dim yn rhy anodd i'r ARGLWYDD?' Yno mae Sarah yn chwerthin o glywed yr addewid, a phan mae'r mab yn cael ei eni, mae'n cael yr enw Isaac; ac ystyr y gair yn llythrennol yw chwerthin. Rwyf wedi meddwl droeon am yr oedi yma yn yr addewid i Abraham a Sarah, ac eto'n sylweddoli y bydd yr hyn a ddysgwn yn Genesis yn llinyn drwy'r Beibl, ac yn arbennig felly yn y Testament Newydd.

Mae'r digwyddiad yma'n rhoi clec i'r syniad fod Cristnogaeth yn rhywbeth y mae pobl yn ei wneud – '*man-made*'! Roedd Abraham dros gant a Sarah hithau yn ei nawdegau: "Pwy fuasai wedi dweud wrth Abraham y rhoddai Sara sugn i blant? Eto mi enais fab iddo yn ei henaint" (Genesis 21:7). Ac eto, 'Beichiogodd Sara a geni mab i Abraham yn ei henaint, ar yr union adeg a ddywedodd Duw wrtho' (21:2). I'r gwrthwyneb, 'Felly, os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. Ond gwaith Duw yw'r cyfan' (2 Corinthiaid 5:17–18). Yr un pryd, mae'n sicrhau fod Abraham, Sarah a ninnau'n medru bod yn siŵr y bydd geiriau Duw, ei addewidion ef, yn cael eu sylweddoli: 'Trwy ffydd — a Sara hithau yn ddiffrwyth — y cafodd nerth i genhedlu plentyn, er cymaint ei oedran, am iddo gyfrif yn ffyddlon yr hwn oedd wedi addo' (Hebreaid 11:11). Daw'r cyfan o ganlyniad i ras Duw, a ninnau'n ymateb drwy ffydd i'r gras hwnnw.

Ond mae'r hanes yn ein dysgu hefyd fod Abraham wedi ymateb yn ufudd, rhywbeth yr oeddem yn gweld ei eisiau yn yr hanes yr wythnos diwethaf, a rhywbeth y byddwn yn ei weld yn cael ei brofi ym mhennod 22. Yn Genesis 17:19, 21, mae Duw nid yn unig yn setlo'r addewid, ond yn rhoi enw i'r plentyn: 'bydd dy wraig Sara yn geni iti fab, a gelwi ef Isaac'. Yn yr adran yma cawn Abraham yn ufuddhau o ran enwi'r plentyn ac o ran y gorchymyn i enwaedu, gan arwyddo'i hyder yn y cyfamod grasol yr oedd Duw yn ei wneud ag ef, ac â phobl Dduw ym mhob cenhedlaeth, pobl dirifedi: 'Rhoes Abraham i'r mab a anwyd iddo o Sara yr enw Isaac; ac enwaedodd Abraham ei fab Isaac yn wyth diwrnod oed, fel yr oedd Duw wedi gorchymyn iddo' (adn. 3–4). Bydd y rhai ohonoch sy'n cofio yn galw i gof fod y geiriau'n cael eu hailadrodd, bron, yn yr hanes am ufudd-dod Joseff a Mair: 'Pan ddaeth yr amser i enwaedu arno ymhen wyth diwrnod, galwyd ef Iesu, yr enw a roddwyd iddo gan yr angel cyn i'w fam feichiogi arno' (Luc 2:21).

Teimlaf fod y ddwy adnod gyntaf yn grynhoad o hyder y Cristion wrth lawenhau yng ngwaith Duw, ei ras a'i allu i wireddu ei addewid. Sylwch fod yr adnodau'n rhoi pwyslais ar yr hyn y mae Duw wedi ei ddatguddio, yr hyn y mae wedi ei ddweud: 'Ymwelodd yr ARGLWYDD â Sara yn ôl ei air, a gwnaeth iddi fel yr addawodd. Beichiogodd Sara a geni mab i Abraham yn ei henaint, ar yr union adeg a ddywedodd Duw wrtho' (1–2). Mae'r cymalau 'yn ôl ei air', 'fel yr addawodd', ac 'a ddywedodd' (yn Saesneg – *said, promised, spoken*) yn ein hatgoffa ninnau nad yr hyn a ddywedwn ni, na'r hyn y mae eraill yn ei ddweud yw sail ein hyder; mae sail ein hyder yng ngair Duw.

1. Ystyriwch yr adnodau hyn o Salm 126:1–2: 'Pan adferodd yr ARGLWYDD lwyddiant Seion, yr oeddem fel rhai wedi cael iachâd; yr oedd ein genau yn llawn chwerthin a'n tafodau yn bloeddio canu. Yna fe ddywedid ymysg y cenhedloedd, "Gwnaeth yr ARGLWYDD bethau mawr iddynt hwy."' I ba raddau y mae chwerthin a bloeddio canu yn wir yn eich bywyd Cristnogol?
2. Wrth edrych yn ôl ar eich bywyd, pa enghreifftiau fedrwch chi eu rhoi sy'n dangos mai 'gwaith Duw yw'r cyfan'?
3. Mae'n siŵr eich bod chi, fel finnau, yn darllen llawer o lenyddiaeth dda. Beth mae'r adnodau cyntaf yn Genesis 21 yn ei ddweud wrthym am y gwerth ddylem ei roi ar ddarllen y Beibl?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 16 Gorffennaf am 7.30yh**
**Uchafbwyntiau 1**
Bydd Ryland Teifi yn rhannu hanner awr o ganu bendigedig a straeon dyrchafol wrth edrych yn ôl ar rai o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr y mae'r cerddor Eilir Owen Griffiths, y gantores gospel Nia Price a'r Mwslim ifanc Mahum Umer.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 16 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: rhaglen 2**
Delwyn Siôn yn cyflwyno mwy o berfformiadau gan Gantorion Bethlehem, Gwaelod-y-garth
**Sul, 16 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Sheridan Angharad James, Tyddewi


(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# ... CYNNAL ADEILADWAITH Y BYD

Y mae'r rhain oll a'u hyder yn eu dwylo'u hunain, ac y mae pob un yn feistr ar ei grefft. Hebddynt, ni chyfanheddir dinas; ni ddaw iddi na thrigolion na theithwyr. Eto ni ofynnir amdanynt ar gyfer cyngor y bobl, ac ni chodant i safle uchel yn y cynulliad; nid eisteddant ar fainc yr ynadon, ac ni allant ddeall dyfarniadau cyfreithiol nac esbonio egwyddorion disgyblaeth a chosb; ac ni cheir mohonynt yn traethu gwirebau. Ond hwy sydd yn cynnal adeiladwaith y byd, a dilyn eu crefft yw eu gweddi. (Ecclesiasticus 38:31–34)

> Oherwydd Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.
>
> Marc 10:45

Y peth a rydd gynhesrwydd i berson, y peth a'i sicrha fod ystyr a gwerth i'w dipyn byw, yw cael ei nabod. Mae teimlo nad ydym werth nabod yn torri calon a lladd ysbryd y cryfaf ohonom.



### Tri pheth

Mae awdur Ecclesiasticus yn awgrymu fod i bawb ei le ac arwyddocâd, ei ddawn a'i gyfle. Cyfaddefa nad pawb sydd yn codi i safle uchel yn y cynulliad, ond myn fod gwerth – tragwyddol – i lafur y sawl sy'n feistr ar ei grefft. Rhain, meddai'r awdur sydd yn cynnal adeiladwaith y byd.

Ar sail yr adnodau uchod, awgrymaf tri pheth am fywyd; i ddechrau: hanfod byw yw *dysgu*; yn ail, diben byw yw sicrhau lles ein gilydd. Yn olaf; mewn bywyd, rhaid rhoi ein gorau i'r gorau.

### Dysgu

Gwelodd Aldous Huxley (1894–1963) *Brave New World*, (1932) roedd popeth yn dda, bywyd heb ofid a dagrau. Ond nid oedd y bywyd da, di-boen hwn yn sicrhau dedwyddwch i bobl. Heb ddagrau ni wyddant sut i chwerthin. Heb dywyllwch ni wyddant sut i fwynhau'r goleuni. Wedi dod i ddeall pob peth, sylweddolent nad oeddent bellach yn deall unrhyw beth. Mae ymdrech a chwys, gofid a dagrau yn rhan annatod o realiti bywyd; rhyw rith o fywyd sydd gennym hebddynt. Rhan o ofid bywyd yw cydnabod, gorfod cydnabod nad ydym yn berffaith, fod pendraw i'n gallu, ein gwybod a'n deall. Gan gydnabod y paradocs, cydnabod ein hanallu i ddeall yw cyfrinach pob deall! Ystyriwch Moses, druan, ac atal dweud mawr arno'n dweud: 'O f'Arglwydd, ni fûm erioed yn ŵr huawdl ... y mae fy lleferydd yn araf a'r tafod yn drwm.' (Exodus 4:10). Bu'n rhaid iddo fynd i wasanaethu Duw. Dyma'r geiriau a osodir yn ei enau gan awdur sgript y ffilm fendigedig *Green Pastures* (1936): 'I aint very much, but I'se all I got.' Fel meddai Ralph Waldo Emerson (1803–82): 'It isn't what you have but what you do with what you have that makes the difference.'

### Gwasanaethu

Yn ail, rydym yma er lles ein gilydd. Myn Iesu bod yn rhaid i'w bobl fodd yn ddefnyddiol, ein byw yn llesol: yn halen, yn oleuni, yn weision: 'Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu.' (Marc 10:45). Ond pa werth sydd i ni? Pa fath o gyfraniad sydd gennym? Ystyriwch eto'r geiriau*: cynnal adeiladwaith y byd*; fel hyn y ceir y cymal mewn un cyfieithiad Saesneg: to maintain the fabric of the world. Bychan yw'n cyfraniad, bychan fel pwyth, ond fel meddai'r bardd Meirion Hughes: 'Er breued ydyw edau/Â'n ddur ar ôl pwyth neu ddau.'

### Rhoi o'n gorau

Yn olaf, rydym yma i roi ein gorau i'r gorau. Nid chwilio am bobl berffaith mae Duw, does neb yn gwybod yn well na Duw nad oes y fath bobl i gael! Chwilio amdanom *ni* mae Duw. Mae ein Duw yn gwrthod cael ei gyfyngu i gornel o'n bywyd, i ryw adeilad o'r neilltu, i un dydd mewn wythnos. Myn Ef ei le yng nghanol ein bywyd, gan mai yng nghanol pob ymdrech, greddf, chwant, angen, gobaith, breuddwyd a chri mae realiti ein bod. Nid chwilio amdanom ar ein gorau mohono ond chwilio am ein gorau.

Felly, wrth ddysgu gwersi bywyd, a cheisio lles ein gilydd, a rhoi o'n gorau i'r Gorau, byddwn *yn cynnal adeiladwaith y byd, a dilyn ein crefft bydd ein gweddi*.

(OLlE)




# Barn Annibynnol

## ARGYFWNG

Aeth hanner canrif heibio ers i James Humphreys gyhoeddi ei lyfr *Yr Argyfwng Cred*. Yn ôl yr awdur roedd y cyfnod yn gyfnod o argyfwng. Os felly, sut fyddai disgrifio ein dyddiau ni? Post-argyfwng?

Diffygion diwinyddol oedd testun y cyhoeddiad. 'Os gwrthyd dyn feddwl am ystyr ei ffydd, y cwbl a wna yw bodloni ar ddiwinyddiaeth arwynebol, a dyna un ochr ein gwendid a'n haneffeithiolrwydd yn yr argyfwng yr ydym ynddo nawr.' Mae'r awdur wedyn yn troi am gefnogaeth gan wroniaid ei ddydd – pobl fel Dr Bleddyn Jones-Roberts, Dr Tudur Jones ac ati. Cynigir rheswm am y diffygion. 'Nid yw hyn yn syndod o gwbl pan gofir i ddiwinyddiaeth yn y gorffennol ymddangos mor aml fel pe'n trafod pynciau haniaethol heb berthynas amlwg o gwbl iddynt â bywyd bob dydd.'

Mae'r llyfr yn sôn am y gwŷr mawr fel J. R. Jones, Harvey Cox, Paul Tillich, Gregor Smith, Martin Buber, Hywel D. Lewis, Barth a Brunner, ac am wyddoniaeth, cyfriniaeth a diwinyddiaeth proses. Dyna lle roedd canol yr ugeinfed ganrif yn esbonio'r argyfwng.




### Ambell i gwestiwn

Tybed ai fel 'na y bydden ni'n taclo'r argyfwng heddiw? Beth am i ni nodi nifer o gwestiynau?

Oes angen DD a DLitt i fod yn Gristion?

Beth fyddai ymateb yr Iesu i'r tunelli o bapur a gynhyrchodd Karl Barth?

Ai rhywbeth i un mewn can mil yw Cristnogaeth, neu rywbeth sy'n arwain at fywyd call a chreadigol i bawb?

Beth fyddai ateb y Testament Newydd i hyn? Does dim sôn i'r Iesu ysgrifennu dim, ond gair neu ddau yn y tywod. A'i hanfod y ffydd Gristnogol yw caru Duw, cymydog a gelyn? Ai mynd ail filltir, maddau gelyn, a gwella'r claf, a phan fo person yn amhoblogaidd, nesu ato? Pan fo person yn anghenus, ar goll yn ei fywyd anniben, onid bod yn gynhwysol, agored, cynnes, cyfrifol a gofalus yw ffordd yr Iesu? I wybod mwy am gariad, gweler Llythyr Paul at yr eglwys yng Nghorinth!

### Atebion

Mae hyn i gyd yn codi cwestiynau eraill, fel beth ddylai criw o Gristnogion ei wneud pan fyddant yn dod ynghyd? Siarad neu wneud? A yw argyfwng yr eglwysi yn codi o ddiffyg cariad i'w cyfeirio ac edifeirwch i'w gorfodi i addasu, a bod eu hefengyl yn llawer rhy gysegredig i fod yn ymarferol? Ai *bod fel* Iesu, neu *feddwl am* Iesu sy'n bwysig?

Clywaf lais yn gofyn onid hiwmanistiaeth yw hyn? Yr ateb wrth gwrs yw 'ie'. Hiwmanistiaeth Gristnogol. Ym mha gwmni fyddai'r Iesu fwyaf cyfforddus: ymhlith dwsin o athronwyr a diwinyddion neu ddwsin o weithwyr mewn banc bwyd neu'r lloches i ferched?

Ai yn yr atebion diffygiol i'r cwestiynau diderfyn hyn mae gwraidd ein hargyfwng?

**Eirian Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Y TAD A'R MAB YN HYRWYDDO HEDDWCH:

## ar y radio ac yn Rhosllannerchrugog

Roedd Cyfarfod Heddwch Undeb 2023 yn Rhosllannerchrugog yn gofiadwy am sawl rheswm. Y siaradwr gwadd oedd Mabon ap Gwynfor AS Cymru dros Ddwyfor Meirionnydd, a'r cadeirydd oedd ei dad, y Parchg Guto Prys ap Gwynfor. Testun anerchiad Mabon oedd: 'Beth ydy rôl Cymru yn y mudiad heddwch rhyngwladol yn y ganrif hon?'

### Bwrw golwg yn ôl ac ymlaen

Cafwyd rhagflas o'r achlysur ar *Bwrw Golwg*, Radio Cymru, lle bu'r tad a'r mab yn trafod hyn gyda John Roberts. Soniwyd am fagwraeth Mabon a'i chwaer Heledd (sy'n Siryf tre Caerfyrddin eleni) ar aelwyd lle roedd eu rhieni'n ymgyrchwyr brwd dros heddwch. Roedd ei mam, Siân ap Gwynfor, yn un o 'ferched Comin Greenham' a phan oeddent yn blant bach byddai'r ddau yn cael eu cymryd gan eu rhieni i brotestiadau fel y rhai a fu tu allan i ganolfan Unol Daleithiau America ym Mreudeth oedd yn monitro llongau tanfor yn ystod y rhyfel oer. Roedd hynny er mwyn i'w plant gael cyfle i gymysgu gydag aelodau o'r mudiad heddwch a gadael iddynt 'weithio pethau mas drostynt eu hunain,' meddai Guto.

### Dylanwad bore oes

Er y dylanwadau Cristnogol a heddychol bore oes yn y cartref, pwysleisiodd Guto ei fod yntau a Siân wedi gadael i'w plant

*parhad ar y dudalen gefn*

## Eglwys Nebo, Felindre, Abertawe

Cynhelir oedfa sefydlu
Y Parchg Rhys Locke
fel bugail ar yr eglwys

**Sadwrn 29 Gorffennaf 4.00 y.p.**

Bydd lluniaeth ar ôl yr oedfa
yn y neuadd.

Croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni

**CYFLE CYFFROUS I WEINIODOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD**

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun EFE,
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?
Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?
Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng Y Wyddfa a Chaernarfon.
Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com - neu ffoniwch (01286) 650450
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Y TAD A'R MAB YN HYRWYDDO HEDDWCH – parhad

ddod i'w hargyhoeddiadau ei hun. Rhaid i hynny ddigwydd ym mhob cenhedlaeth, meddai, tra bod Mabon yn cofio'r sgyrsiau am heddwch rhyngwladol o gwmpas y bwrdd bwyd, oedd wedi ei wneud yntau a Heledd yn ymwybodol o'r fath faterion.

## Egwyddorion mewn rhyfel

Wrth droi at y sefyllfa yn Wcráin heddiw, gofynnodd John Roberts a fyddai heddychwyr am weld y wlad honno'n ildio. Onid dyna ben draw heddychiaeth, holodd? Atebodd Guto trwy ddyfynnu Henry Richard AS, Yr Apostol Heddwch, a feirniadwyd am beidio â chefnogi gogledd Unol Daleithiau America yn y rhyfel cartref yn erbyn taleithiau'r de er mwyn dileu caethwasiaeth a phethau dychrynllyd eraill. Dywedodd: 'Os ydw i'n credu rhywbeth mewn egwyddor, mae'r egwyddor honno'n hollol ddi-werth os ydw i'n fodlon newid fy meddwl pan fo'r amgylchiadau'n newid.'

## Arwydd o gadernid

Fel gwleidydd, sy'n gorfod cyfaddawdu'n barhaus, onid yw dal at safbwynt heddychol yn anodd gofynnodd John Roberts i Mabon. Cytunodd yntau fod hynny'n wir, a bod cyfaddawdu yn rhan o fywyd pob dydd pawb, ond bod rhai egwyddorion craidd fel materion o ffydd a heddwch lle nad yw rhywun yn cyfaddawdu ac yn dal yn gadarn at yr egwyddorion hynny. 'Yr argraff sydd gyda



ni yn yr oes yma, yn y byd yma, ydy er mwyn i rywun fod yn gadarn a chryf mae'n rhaid defnyddio trais, a dyna'r diffiniad o gadernid. Ond rwy'n gwrthod y cysyniad yna'n llwyr,' meddai Mabon. 'Nid yw'n arwydd o gadernid i ladd pobl ddiniwed, i ladd plant, i ladd pobl sy'n cael eu gorfodi i fynd i ryfel am eu bod nhw o gefndir tlawd. Yr arwydd o gryfder ydy *gwrthod* mynd i ryfel, *gwrthod* lladd, a sicrhau bod ni'n ceisio ffeindio datrysiad i broblemau yn hytrach na defnyddio trais.'

## Dylanwad gwleidyddol

O droi at thema'r Cyfarfod Heddwch yn benodol, holodd John sut all Cymru chwarae rôl mewn sefyllfa wleidyddol fregus, fel sydd yn Ewrop ac mewn cymaint o wledydd erbyn hyn? Atebodd Mabon fod gan bawb rôl i'w chwarae fel unigolion ynghyd â sefydliadau eraill. 'Y gwir ydy mai unigolion sy'n mynd i wneud y gwahaniaeth, gan mai unigolion ydyn ni i gyd. O ran y maes gwleidyddol, rwy'n ffodus mod i'n gallu siarad gyda gwleidyddion eraill mewn gwledydd ar draws y byd, ac rwy'n gwneud pwynt o wneud hynny a defnyddio'r platfform i ddwyn dylanwad.'

## Swyddi'r diwydiant arfau

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwario dros biliwn o bunnau'r flwyddyn ar brynu arfau a nwyddau eraill gan gwmnïau fel General Dynamics a Raython, sy'n cyflogi tua 7,700 o bobl yng Nghymru. Felly, sut all Cymru sefyll dros heddwch pan mae cymaint o'n dinasyddion ni yn gweithio yn y fasnach arfau? Dyna oedd cwestiwn John Roberts i Guto. 'Ydych chi'n dweud bod rhaid iddyn nhw roi'r gorau i'w gwaith?' holodd. Atebodd Guto nad oedd e'n dweud unrhyw beth o'r fath. 'Mae pwyslais ar bob unigolyn i ddod i'w argyhoeddiad ef neu hi ei hunan. Mae lan iddyn nhw os ydyn nhw am barhau yn y gwaith hwnnw, ond bydden ni'n rhoi pwysau drwy'r eglwys a mudiadau eraill ar i bobol ystyried a ydy'r hyn y maen nhw yn ei wneud yn rhywbeth sy'n help i ddatblygu dynoliaeth er gwell.'

Ychwanegodd Mabon fod hi'n annheg beirniadu unigolion sy'n gweithio tu mewn i gyfundrefn lle maen nhw hwyrach yn methu addasu swyddi am fod ganddyn nhw forgais, mae ganddyn nhw deulu i'w gynnal, a'u bod nhw'n gweld bod yn rhaid iddyn nhw gynnal yr anwyliaid sy'n agos atyn nhw. 'Felly, y *gyfundrefn* ddylai newid, ein bod ni ddim yn cynhyrchu'r arfau yn y lle cynta, fel nad yw pobl yn mynd i'r swyddi yna. Mae'r bobol yma'n arbennig o ddawnus, a dylid defnyddio'r doniau yna at bethau mwy heddychlon yn hytrach na chreu arfau.'

Roedd hi'n braf bod testun a siaradwyr Cyfarfod Heddwch yr Annibynwyr yn cael sylw, nid yn unig yn Rhosllannerchrugog, ond ar y radio, ac felly ledled y genedl.



Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.